# Dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach: Merthyr a Rhondda Cynon Taf (ail-hysbyseb)

## Cefndir

Mae Ofcom wedi penderfynu dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach newydd ar gyfer Merthyr a Rhondda Cynon Taf i GTFM (South Wales) Ltd.

Wrth ystyried y ceisiadau y mae'n eu derbyn am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol a nodir yn adran 51(2) o Ddeddf Darlledu 1996 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. cwmpas yr ardal ddarpariaeth (o fewn yr ardal neu'r gymdogaeth a nodir yn yr hysbysiad gan Ofcom yn gwahodd ceisiadau) y bwriedir darparu gwasanaeth iddi gan yr ymgeisydd yn y cynllun technegol a gyflwynwyd yn ei gais; (adran 51(2)(a))

2. gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(c))

3. dymunoldeb dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd sydd:
    a. yn berson sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno, neu sydd
    b. â pherson fel cyfranogwr sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno; (adran 51(2)(ca))

4. i ba raddau y ceir tystiolaeth, ymhlith personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno, fod galw am, neu gefnogaeth dros, ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig; (adran 51(2)(f)) a

5. pha un a yw'r ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. (adran 51(2)(g)).

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn graddio'r gofynion hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn gweld bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig o ystyried nodweddion y drwydded sydd i'w dyfarnu a'r ceisiadau a gyflwynwyd amdani.

## Asesiad

Ar 30 Mawrth 2023, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach mewn sawl cymdogaeth, gan gynnwys Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Nodir mai dyma'r eildro i drwydded ar gyfer y gymdogaeth hon gael ei hysbysebu, er bod y drwydded newydd yn cwmpasu ardal lai o lawer sy'n canolbwyntio ar ran orllewinol yr ardal y darparwyd ar ei chyfer yn flaenorol gan yr ardal Cymoedd Cymru a hysbysebwyd. Dyfarnwyd y drwydded ar gyfer Cymoedd Cymru i GTFM (South Wales) Limited ym mis Mawrth 2021, ond cafodd y dyfarniad ei ganslo ym mis Awst 2022 ar y sail bod gan Ofcom sail resymol dros gredu na fyddai'r person y dyfarnwyd y drwydded iddo'n darparu'r gwasanaeth o fewn 18 mis o'r dyfarniad.

Erbyn y dyddiad cau o 30 Mehefin 2023, roedd Ofcom wedi derbyn un cais ar gyfer Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Daeth hwn gan GTFM (South Wales) Limited (“GTFM”). Darparwyd copi o'r rhannau o'r cais nad ydynt yn gyfrinachol i'r cyhoedd graffu arno ar wefan Ofcom, a gwahoddwyd sylwadau gan y cyhoedd yn unol â gofynion adran 50(7) ond ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Asesodd cydweithwyr Ofcom fanylion y cais, gan gynnwys cynnal asesiad o'r cynllun technegol y mae'n ofynnol i'w cyflwyno yn rhan o bob cais. Gwnaed y penderfyniad mewn perthynas â Merthyr a Rhondda Cynon Taf gan banel penderfynu yn Ofcom mewn cyfarfod ar 8 Medi 2023. Gwnaethant ystyried y cais a chyngor proffesiynol gan gydweithwyr Ofcom yn ofalus, gan gymhwyso'r meini prawf statudol wrth ddod i'w penderfyniad ynghylch a ddylid dyfarnu trwydded i'r unig ymgeisydd ai beidio. Rhoddir crynodeb o'r rhesymau dros eu penderfyniad i ddyfarnu trwydded i GTFM isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(a), cynigiodd yr ymgeisydd llwyddiannus ddefnyddio wyth trosglwyddydd i ddarparu ei wasanaeth. Mae cyfrifiadau Ofcom yn nodi i hyn olygu y byddai modd i oddeutu 68% o'r boblogaeth oedolion yn ardal y drwydded a hysbysebwyd dderbyn y gwasanaeth. Nododd rhagfynegiadau darpariaeth Ofcom y byddai'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach arfaethedig ar gael i lawer llai na 40% o'r boblogaeth yn ardaloedd trwydded gwasanaethau amlblecs radio lleol Abertawe a De-ddwyrain Cymru sy'n gorgyffwrdd, ac y byddai gorlif y signal y tu allan i'r ardal a hysbysebwyd yn fach iawn ac ymhell o dan 30% o boblogaeth yr ardal a hysbysebwyd. Gan hynny, ni fyddai angen unrhyw fesurau lliniaru i gydymffurfio â'r trothwyon gorgyffwrdd a gorlif perthnasol. Roedd Ofcom o'r farn y byddai mesurau lliniaru yn debygol o fod yn angenrheidiol mewn perthynas ag effeithiau torri tyllau, ond rhagwelwyd y byddai hyn yn gostwng y ddarpariaeth ond ychydig, i tua 64%. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad y byddai hyn yn cynrychioli lefel dda o ddarpariaeth mewn ardal sydd â thopograffeg eithriadol o heriol a phoblogaeth wedi'i gwasgaru ar draws sawl tref, gan gynnwys y Rhondda, Pontypridd, Merthyr Tudful ac Aberdâr. Nodwyd, yn benodol, mai cadarnhaol oedd y cynnig i ymestyn darpariaeth i gylch darlledu bresennol y ddau wasanaeth analog cymunedol yn yr ardal, sef GTFM ei hun a Rhondda Radio, gan ddarparu llwybr i ddigidol ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(c), ystyriodd Ofcom gynllun ariannol a busnes yr ymgeisydd, ei gynllun technegol, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth, a thystiolaeth o arbenigedd a phrofiad perthnasol. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad y dyfarnwyd y drwydded gynharach ar

gyfer Cymoedd Cymru i GTFM, ond bod y dyfarniad wedi'i ddirymu yn y pen draw o ganlyniad i anallu i lansio o fewn y cyfnod statudol o 18 mis. Nodwyd hefyd y byddai lansio'r nifer o drosglwyddyddion sy'n angenrheidiol i ddarparu'r lefel gymharol uchel o ddarpariaeth a gynigir yn her sylweddol, o ystyried y gost a'r cymhlethdod, a bod yr ymgeisydd yn dibynnu ar arian grant nad oedd eto wedi'i sicrhau. Bu i'r rhai a wnaeth y penderfyniad ystyried yn ofalus, yng ngoleuni'r heriau sylweddol hyn, a oedd digon o obaith o lansio'r gwasanaeth i gyfiawnhau gwneud dyfarniad i'r unig ymgeisydd. Ar ôl pwyso a mesur, gan nodi bod y dewis o safleoedd i'w weld yn rhesymol (er yn uchelgeisiol iawn o ran y nifer fawr o safleoedd), a bod yr ymgeisydd yn cynnwys partneriaid a oedd wedi ymwneud â lansiadau amlblecsau mewn ardaloedd eraill), roedd y rhai a wnaeth y penderfyniad o’r farn bod digon o dystiolaeth bod gobaith sefydlu’r gwasanaeth o fewn y cyfnod statudol o 18 mis i gyfiawnhau dyfarnu trwydded yn yr achos hwn.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(ca), nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod yr ymgeisydd ei hun yn bwriadu darparu gwasanaeth C-DSP, GTFM, a bod hwn yn wasanaeth radio cymunedol analog presennol yn yr ardal, gan olygu bod yna gyfle rhagorol y byddai ar gael ar adeg y lansiad.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(f), ystyriodd Ofcom dystiolaeth o alw neu gefnogaeth gan bersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol (gwasanaethau C-DSP neu DSP) yn yr ardal a hysbysebwyd. Yn ogystal â gwasanaeth C-DSP yr ymgeisydd ei hun, daethpwyd i gytundeb mewn egwyddor â gwasanaeth radio cymunedol analog arall yn yr ardal, Rhondda Radio, a gyda dau wasanaeth C-DSP arfaethedig arall. Nododd yr ymgeisydd hefyd gytundeb mewn egwyddor mewn perthynas â phum gwasanaeth DSP gan Nation Broadcasting. Nododd y rhai a wnaeth y penderfyniad fod hyn yn cynrychioli cefnogaeth dda gan y sector cymunedol, ond y byddai angen gwaith sylweddol i ymestyn diddordeb o’r sector masnachol rhwng dyfarnu a lansio, gan nodi’n arbennig y cost gymharol uchel y cyfeirir ati uchod sy’n gysylltiedig â sefydlu gwasanaeth gyda nifer o drosglwyddyddion.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(g) ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd, wrth gontractio neu gynnig contractio gyda phersonau sy'n darparu neu’n bwriadu darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol, wedi gweithredu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Nodir nad yw dyfarnu trwydded yn rhoi'r hawl i'r dyfarnai weithredu pob elfen o'r cynllun technegol a gyflwynwyd i Ofcom yn rhan o'r cais llwyddiannus. Bydd Ofcom yn trin cynigion yn y cynllun hwnnw, ar y sail y gwnaed y dyfarniad arni, fel pethau y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y cyfnod 18 mis a ganiateir rhwng dyfarnu a lansio. Fodd bynnag, am resymau cynllunio sbectrwm, mae’n bosib y bydd Ofcom yn mynnu diwygiadau i gynigion rhwng dyfarnu a rhoi’r drwydded.

*Medi 2023*